**Hysbysiad Preifatrwydd**

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yw buddiolwr arweiniol rhaglen GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith. Gan fod y rhaglen yn cael ei hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, rhaid i CCAUC gasglu rhai wybodaeth benodol sy'n gysylltiedig â chyfranogwyr yn y rhaglen, fel sy'n ofynnol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) / Llywodraeth Cymru yn unol â rheoliadau'r Gronfa Strwythurol (Rheoliad (UE) 1303/2013 a Rheoliad (UE) 1304/2013). Llywodraeth Cymru yw rheolydd data'r wybodaeth hon. Yn ogystal â hyn, mae CCAUC yn casglu data ychwanegol er mwyn rheoli a chyflenwi'r rhaglen; CCAUC yw'r rheolydd data ar gyfer yr wybodaeth ychwanegol. Y prifysgolion sy'n cyflenwi'r rhaglen yw'r proseswyr data.

**Yr wybodaeth sy'n cael ei phrosesu gennym**

Mae'r mathau o wybodaeth sy'n cael eu prosesu yn cynnwys manylion personol, manylion addysg, a mathau arbennig o ddata megis tarddiad ethnig, anabledd, cyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar y gallu i weithio, a statws mudol. Gellir gweld manylion llawn y data a gesglir a'r rheswm dros ei gasglu yn **Atodiad A**.
.

**Sail gyfreithlon**

Y sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r wybodaeth a gesglir yw er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru ac CCAUC i gyflawni tasg a gynhelir wrth arfer awdurdod swyddogol wedi'i freinio ynddynt, yn unol â Rheoliadau'r Cronfeydd Strwythurol a'r cytundebau cyllido rhwng WEFO ac CCAUC.

Mae categorïau data arbennig yn cael eu prosesu dan yr amod fod y prosesu yn angenrheidiol am resymau o fudd sylweddol i'r cyhoedd, ar sail cyfraith yr Undeb Ewropeaidd neu aelod-wladwriaeth a fydd yn gymesur i'r nod dan sylw, yn parchu hanfod yr hawl i ddiogelwch data, ac yn darparu ar gyfer mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddion testun y data. Mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Rheoli (e.e. WEFO) gasglu'r fath data a hefyd defnyddio'r data hwn i helpu i sicrhau cyfranogiad teg gan bob rhan o'r gymdeithas yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae angen y data hwn hefyd er mwyn dangos cymhwysedd ar gyfer y rhaglen Cyflawni drwy Brofiad Gwaith.

**Yr hyn rydym yn ei wneud gyda'r wybodaeth a pha mor hir rydym yn ei chadw**

Mae'r wybodaeth rydych yn ei darparu yn ystod y broses asesu cyflogadwyedd, cofrestru, a'ch ymgysylltiad â'r rhaglen yn cael ei defnyddio i greu a chynnal cofnodion prosiect at ddibenion gweinyddol ac archwilio, i reoli a monitro'r rhaglen, ac i hawlio cymorth ariannol. Yn ogystal, bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda sefydliadau sydd wedi'u contractio gan CCAUC i ymgymryd â gwerthusiadau neu astudiaethau ymchwil ar y rhaglen. Mae'n bosibl y bydd y contractwyr am gysylltu â chi i drafod eich profiadau ar y rhaglen. Bydd canlyniad y gwerthusiad ar ffurf adroddiad ysgrifenedig a fydd yn cael ei gyflwyno i WEFO a'i rannu gyda phrifysgolion ac eraill ond na fydd yn cynnwys unrhyw fanylion cyswllt, a bydd

unrhyw wybodaeth y gellir adnabod unigolyn ar ei sail yn cael ei dileu ohono. Bydd yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar wefannau Llywodraeth Cymru ac CCAUC.

Bydd data perfformiad y rhaglen yn cael ei rannu â'r holl bartneriaid cyflenwi (prifysgolion yng Nghymru) a rhanddeiliaid eraill. Bydd y data hwn yn cael ei gyfuno a'i nodi ar ffurf ystadegau.

Er mwyn asesu effaith cyllid yr UE yng Nghymru yn fwy eang, bydd WEFO neu sefydliad ymchwil a gomisiynwyd yn ymgymryd ag ymchwil neu astudiaethau gwerthuso o gyfranogwyr. Bydd WEFO neu gontractwr a benodwyd yn dilyn canllawiau moesegol priodol, ac ni fydd canfyddiadau'r ymchwil na'r astudiaethau gwerthuso yn nodi cyfranogwyr na sefydliadau unigol.

Gall Llywodraeth Cymru / WEFO gysylltu cofnodion cyfranogwyr o'r data â gwybodaeth arall amdanynt a gedwir gan Lywodraeth Cymru ac adrannau Llywodraeth y DU. Gwneir hyn ond at ddibenion gwerthuso effaith cymorth cyllid yr UE ar y bobl sydd wedi cymryd rhan ac er mwyn i Lywodraeth Cymru / WEFO neu sefydliadau ymchwil gymdeithasol a gymeradwywyd wneud gwaith ymchwil i bynciau perthnasol.

Bydd WEFO hefyd yn rhannu data gyda thimau perthnasol Llywodraeth Cymru ac archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd i helpu i benderfynu a yw'r prosiect wedi dilyn y gweithdrefnau cywir ac i wirio cymhwysedd cyfranogwyr, gweithgarwch a gwariant. Gall Llywodraeth Cymru hefyd rannu data gydag archwilwyr annibynnol.

I gael mwy o wybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru / WEFO yn defnyddio'r wybodaeth sy'n cael eu hanfon atynt, ewch i 180622-wefo-gdpr-v2-cy.pdf (gov.wales).

Ni fydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio at unrhyw ddiben arall ar wahân i'r rhai hynny a nodwyd uchod. Bydd cyfnod cadw'r data yn cael ei bennu gan WEFO yn unol â'r rhwymedigaethau yn Rheoliad y Cronfeydd Strwythurol (UE) 1303/2013.

**Eich hawliau**

Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth bersonol a gofyn i ni gywiro eich gwybodaeth bersonol os nad yw'n gywir, a hynny drwy anfon neges e-bost at CCAUC: atwe@hefcw.ac.uk.

Mae gennych hawl hefyd i wrthwynebu prosesu'ch data personol. Fodd bynnag, rhaid i chi roi rhesymau penodol dros wrthwynebu prosesu'ch data, a gallwn ni / Llywodraeth Cymru / WEFO barhau i brosesu'r data os gall Llywodraeth Cymru / WEFO ddangos sail gyfreithlon sy'n gymhellol dros brosesu'r data.

Os byddwch am weld y data a gedwir gan Lywodraeth Cymru, dylech gysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru drwy anfon e-bost at DataProtectionOfficer@llyw.cymru.

**Atodiad A**

## GO Wales: Cyflawni drwy Brofiad Gwaith

### Data a gasglwyd

Cyfranogwyr (myfyrwyr)

| Data | Rheswm dros gasglu | Sut mae CCAUC yn prosesu data |
|---|---|---|
| Oedran / Dyddiad geni | Rheoliad (UE) Rhif 1304 / 2013, Atodiad 1 – mae'n ofynnol i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru adrodd am hyn i'r UE.<br>Mae'n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Cadarnhau cymhwysedd.<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd/cymhwysedd.<br>Wedi'i gadw yn unol â'r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Rhyw | Rheoliad (UE) Rhif 1304 / 2013, Atodiad 1 – mae'n ofynnol i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru adrodd am hyn i'r UE.<br>Mae'n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Monitro allbynnau yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.<br>Gellir ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â'r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Statws mudol | Rheoliad (UE) Rhif 1304 / 2013, Atodiad 1 – mae'n ofynnol i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru adrodd am hyn i'r UE.<br>Mae'n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Monitro allbynnau yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.<br>Gellir ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â'r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Aelwyd ddi-waith | Rheoliad (UE) Rhif 1304 / 2013, Atodiad 1 – mae'n ofynnol i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru adrodd am hyn i'r UE. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr. |

| Data | Rheswm dros gasglu | Sut mae CCAUC yn prosesu data |
|---|---|---|
| | | Gellir ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Plant dibynnol | Mae’n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Gellir ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Digartref | Rheoliad (UE) Rhif 1304 / 2013, Atodiad 1 – mae'n ofynnol i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru adrodd am hyn i'r UE.<br>Mae’n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Gellir ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Anabl | Rheoliad (UE) Rhif 1304 / 2013, Atodiad 1 – mae'n ofynnol i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru adrodd am hyn i'r UE.<br>Mae’n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Monitro allbynnau yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.<br>Gwerthusiad<br>Gellir ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Math o anabledd | Mae’n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes.<br>Mae CCAUC yn ei gwneud yn ofynnol i fonitro cyfranogwyr ar y rhaglen a helpu cyd-fuddiolwyr i gyflenwi’r rhaglen. | Monitro cyflenwi.<br>Gwerthusiad.<br>Gellir ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |

| Data | Rheswm dros gasglu | Sut mae CCAUC yn prosesu data |
|---|---|---|
| Statws cyflogaeth (h.y. addysg llawn amser) | Rheoliad (UE) Rhif 1304 / 2013, Atodiad 1 – mae'n ofynnol i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru adrodd am hyn i'r UE.<br>Mae’n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Cadarnhau cymhwysedd.<br>Gallai dogfennau yn dangos addysg llawn amser gael eu darparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd/cymhwysedd.<br>Gwerthusiad.<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Cymhwyster uchaf | Rheoliad (UE) Rhif 1304 / 2013, Atodiad 1 – mae'n ofynnol i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru adrodd am hyn i'r UE.<br>Mae’n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Gwerthusiad.<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Enw, gan gynnwys teitl | Mae’n ofynnol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i allu cysylltu â chyfranogwyr, at ddiben llwybrau archwilio, ac i wirio a oes cyfranogwyr wedi'u dyblygu (wedi'u hadrodd fwy nag unwaith i'r UE).<br>Mae’n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Cyflenwi rhaglen.<br>Gwerthusiad.<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Cyfeiriad | Mae’n ofynnol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i allu cysylltu â chyfranogwyr, at ddiben llwybrau archwilio, ac i wirio a oes cyfranogwyr wedi'u dyblygu (wedi'u hadrodd fwy nag unwaith i'r UE).<br>Mae’n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes.<br>Penderfynu ar gymhwysedd. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Cadarnhau cymhwysedd.<br>Cyflenwi rhaglen.<br>Gwerthusiad |

| Data | Rheswm dros gasglu | Sut mae CCAUC yn prosesu data |
|---|---|---|
| | | Gellir ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Manylion cyswllt | Mae’n ofynnol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i allu cysylltu â chyfranogwyr, at ddiben llwybrau archwilio, ac i wirio a oes cyfranogwyr wedi'u dyblygu (wedi'u hadrodd fwy nag unwaith i'r UE).<br>Mae’n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Defnyddir i gysylltu â chyfranogwyr.<br>Cyflenwi rhaglen.<br>Gwerthusiad<br>Gellir ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Ethnigrwydd | Mae'n ofynnol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i fonitro perfformiad yn erbyn targedau themâu trawsbynciol.<br>Maen prawf cymhwysedd yn unol â'r hyn a gytunwyd â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd, a dyna sy'n penderfynu ar gymhwysedd.<br>Mae’n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Cadarnhau cymhwysedd.<br>Monitro allbynnau yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.<br>Gwerthusiad.<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Cyfrifoldebau gofal neu ofal plant | Mae’n ofynnol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i fonitro perfformiad yn erbyn targedau themâu trawsbynciol.<br>Maen prawf cymhwysedd yn unol â'r hyn a gytunwyd â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd, a dyna sy'n penderfynu ar gymhwysedd.<br>Mae’n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Cadarnhau cymhwysedd.<br>Monitro allbynnau yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.<br>Gwerthusiad<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |

| Data | Rheswm dros gasglu | Sut mae CCAUC yn prosesu data |
|---|---|---|
| Gallu o ran yr iaith Gymraeg | Mae'n ofynnol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i ddangos bod y rhaglen yn cael ei chyflenwi yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Monitro rhaglen.<br>Gwerthusiad<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â'r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Iaith ddewisol ar gyfer cyfathrebu | Mae'n ofynnol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru er mwyn cysylltu â chyfranogwyr yn eu hiaith ddewisol ac i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflenwi yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Penderfynu ar iaith gyfathrebu.<br>Cyflenwi rhaglen.<br>Gwerthusiad<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â'r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Yr hawl i fyw yn y DU | Maen prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop, felly dyna sy'n penderfynu ar gymhwysedd.<br>Mae'n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Cadarnhau cymhwysedd.<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â'r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Yr hawl i fyw yn yr UE | Maen prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth Cronfa Gymdeithasol Ewrop<br>Mae'n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â'r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Rhif Yswiriant Gwladol | Mae'n ofynnol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i allu cysylltu â chyfranogwyr, at ddiben llwybrau archwilio, ac i wirio a oes cyfranogwyr | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr. |

| Data | Rheswm dros gasglu | Sut mae CCAUC yn prosesu data |
|---|---|---|
| | wedi'u dyblygu (wedi'u hadrodd fwy nag unwaith i'r UE) ac i'w galluogi i olrhain cyfranogwyr.<br>Mae’n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Rhif unigryw'r dysgwr | Mae'n ofynnol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i'w galluogi i olrhain cyfranogwyr.<br>Mae’n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Cyfeiriad cartref | Mae'n ofynnol gan CCAUC i wirio a yw cyfranogwr o gymdogaeth cyfranogiad isel ac i fonitro ble mae'r cyfranogwyr yn byw.<br>Penderfynu ar gymhwysedd.<br>Mae’n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Wedi'i adrodd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i dynnu'r grant i lawr.<br>Dangos cymhwysedd.<br>Monitro allbynnau yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.<br>Gwerthusiad<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Os yw'r cyfeiriad cartref mewn cymdogaeth cyfranogiad isel | Mae'n ofynnol gan CCAUC i wirio a yw cyfranogwr o gymdogaeth cyfranogiad isel ac i fonitro ble mae'r cyfranogwyr yn byw.<br>Maen prawf cymhwysedd yn unol â'r hyn a gytunwyd â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd, a dyna sy'n penderfynu ar gymhwysedd.<br>Mae’n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Dangos cymhwysedd.<br>Monitro allbynnau yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.<br>Gwerthusiad<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Ymadawr gofal | Maen prawf cymhwysedd yn unol â'r hyn a gytunwyd â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd, a dyna sy'n penderfynu ar gymhwysedd.<br>Mae’n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Dangos cymhwysedd.<br>Monitro allbynnau yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.<br>Cyflenwi rhaglen.<br>Gwerthusiad |

| Data | Rheswm dros gasglu | Sut mae CCAUC yn prosesu data |
|---|---|---|
| | | Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â'r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Dyddiad graddio | Mae'n ofynnol gan CCAUC i fonitro cyfranogwyr ar y rhaglen a helpu cyd-fuddiolwyr i gyflenwi'r rhaglen.<br>Mae'n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Monitro allbynnau.<br>Cyflenwi rhaglen.<br>Gwerthusiad<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â'r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Man astudio | Mae'n ofynnol gan CCAUC i fonitro cyfranogwyr ar y rhaglen a helpu cyd-fuddiolwyr i gyflenwi'r rhaglen.<br>Mae'n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes.<br>Penderfynu ar gymhwysedd. | Monitro allbynnau.<br>Cadarnhau cymhwysedd.<br>Cyflenwi rhaglen.<br>Gwerthusiad<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â'r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Cwrs / pwnc gradd | Mae'n ofynnol gan CCAUC i fonitro cyfranogwyr ar y rhaglen a helpu cyd-fuddiolwyr i gyflenwi'r rhaglen.<br>Mae'n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Defnyddir gan CCAUC/cyd-fuddiolwyr i fonitro cyfranogwyr a nodi bylchau mewn darpariaeth.<br>Cyflenwi rhaglen.<br>Gwerthusiad<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â'r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Cyflogadwyedd ar ddechrau'r rhaglen ac yn ei hystod | Asesiad addasrwydd yn ofynnol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.<br>Meincnodi sgiliau i ddangos cynnydd (gweithgaredd).<br>Mae'n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Dangos addasrwydd cyfranogwyr<br>Dangos cynnydd cyfranogwyr<br>Dangos gweithgaredd<br>Monitro a chyflenwi rhaglen<br>Cyflenwi rhaglen.<br>Gwerthusiad |

| Data | Rheswm dros gasglu | Sut mae CCAUC yn prosesu data |
|---|---|---|
| | | Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â'r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Amcanion / Myfyrio am gyfleoedd | Cytunwyd ar y gweithgaredd gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.<br>Tystiolaeth o ddysgu gan gyfranogwyr.<br>Mae'n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Dangos gweithgaredd<br>Monitro a chyflenwi rhaglen<br>Cyflenwi rhaglen.<br>Gwerthusiad<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â'r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Cofnod o ymgysylltiad cyffredinol â'r cyfranogwr, gan gynnwys hoffterau profiad gwaith | Cytunwyd ar y gweithgaredd gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.<br>Tystiolaeth o ddysgu gan gyfranogwyr.<br>Tystiolaeth o fewnbwn gan gynghorwyr.<br>Mae'n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Dangos gweithgaredd<br>Monitro a chyflenwi rhaglen<br>Cyflenwi rhaglen.<br>Gwerthusiad<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â'r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Adborth ar gyfleoedd a rhaglen | At ddibenion gwerthuso ar gyfer cyd-fuddiolwyr a gwerthuswyr a benodwyd gan CCAUC<br>Mae'n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Dangos gweithgaredd<br>Data dienw a rannwyd gyda chyd-fuddiolwyr<br>Cyflenwi rhaglen.<br>Gwerthusiad<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd.<br>Wedi'i gadw yn unol â'r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Copïau o ddogfennau dilysu (e.e. pasbort, tystysgrif geni, gwybodaeth am | I dystio cymhwysedd yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd/cymhwysedd.<br>Wedi'i gadw yn unol â'r canllawiau ar gadw dogfennau. |

| Data | Rheswm dros gasglu | Sut mae CCAUC yn prosesu data |
|---|---|---|
| fenthyciad myfyriwr ac ati) | | |
| Dyddlyfrau profiad gwaith | Mae’n ofynnol i ddangos gweithgaredd ar y rhaglen a chyflenwi'r rhaglen yn unol â Rheoliad (UE) 1303 / 2013 (Erthygl 140) a'r Cynllun Busnes. | Dangos gweithgaredd<br>Monitro gweithgaredd ar y rhaglen, gan gynnwys nifer yr oriau ar brofiad gwaith a lefel gweithgaredd<br>Gellid ei ddarparu i CCAUC / Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru / archwilwyr i ddangos gweithgaredd<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Astudiaethau achos dienw, gyda manylion profiad y myfyriwr ar y rhaglen, fel rhan o'r Adroddiad Cynnydd | Er mwyn dangos gweithgaredd i CCAUC a Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a bodloni gofynion adroddiadau cynnydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. | Gwybodaeth a drosglwyddwyd o fewn CCAUC er gwybodaeth ac er mwyn llywio'r gwaith o fonitro yn erbyn perfformiad Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.<br>Gwybodaeth a gynhwysir o fewn Adroddiad Cynnydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fel tystiolaeth o weithgaredd ac effaith.<br>Wedi'i gadw yn unol â’r canllawiau ar gadw dogfennau. |
| Astudiaethau achos gydag enwau cyfranogwyr a chyflogwyr | Er mwyn hyrwyddo'r rhaglen i fyfyrwyr, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill. | Mae'r rhain yn cael eu datblygu gyda chydsyniad y cyfranogwr a'r cyflogwr<br>Mae gan y cyfranogwr a'r cyflogwr yr hawl i gymeradwyo'r testun yn derfynol<br>Bydd astudiaethau achos yn cael eu rhoi ar wefan GOW |